

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

EIP Cymru

Sut y gall EIP Cymru helpu
eich busnes?

Gwaredu BVD

Ymateb cadarnhaol i'r
rhaglen newydd yng Nghymru





ALED MORRIS

Marian Mawr, Dyserth, Y Rhyl
Safle Arddangos Cyswllt Ffermio

Bu 2017 yn flwyddyn brysur ym Marian Mawr gyda'r prysurdeb arferol sy'n gysylltiedig â rhedeg buches laeth 400 o fuchod, yn ogystal â chynnal diwrnod agored fferm arddangos a nifer o ddigwyddiadau dilynol gyda grwpiau trafod llaeth lleol. Wrth edrych ymlaen am 2018, rydym yn gobeithio manteisio ar Gynllun Rheoli Maetholion wedi ei deilwra i'r fferm a fydd yn ein helpu i dargedu'r chwalu slyri yn y dyfodol a rhoi syniad i ni am ffrwythlondeb y pridd ar barsel newydd o dir a brynwyd yr haf diwethaf. Rydym hefyd yn gobeithio, trwy ddefnyddio'r wybodaeth hon, y gallwn ddangos y gallu i gynhyrchu digon o silwair glaswellt o safon uchel allan o'r swm lleiaf posibl o fewnbwn wedi ei brynu i mewn.

Dechreuodd y prosiect arweinyddiaeth a rheoli staff oedd yn ganolbwynt i'n diwrnod agored y llynedd ddwyn ffrwyth gan fod ein staff ar y fferm yn llawer mwy ymwybodol o ddangosyddion perfformiad allweddol y fuches ac maent yn cynyddu yn eu hyder trwy'r

manylebau rôl a strwythur cyfathrebu newydd sydd gennym yn eu lle.

Mae rhai o'r heffrod cyntaf i gael eu profi yn genomaid pan oeddynt yn lloeau i ddod â lloeau ym mis Mai eleni. Rwyf yn edrych ymlaen at weld a fydd y samplau meinwe bychan a gymerwyd o'u clustiau yn lloeau yn dweud wrthym mewn gwirionedd ac yn fwy cywir sut y maent yn debygol o berfformio yn y fuches.

Gobeithio, erbyn diwedd Ionawr, y bydd y grŵp cynhyrchol iawn yn setlo yn eu sied ciwbiclau newydd a fydd yn cynnig y lle i ni ehangu maint ein buches ymhellach. Gobeithiwn y bydd y cynnydd hwn yn digwydd yn naturiol gyda'n stoc cyfnewid ein hunain, a thrwy ddefnyddio semen gyda'r rhyw yn hysbys a phrofi genomig wedi ei dargedu ar y stoc benyw, gallwn sicrhau bod unrhyw heffer sy'n dod i mewn i'r fuches yno i gyflawni ac nid i wneud dim byd mwy nag ychwanegu at y nifer. Rhoddir ystyriaeth ofalus i'r ffyrdd mwyaf cost effeithiol o gynyddu storffeydd slyri a chynllunio systemau a fydd yn bodloni'r gofynion.

Ymchwilio i effaith porthi TMR Cywasgedig yn Llysfasi

Mae porthi Dogn Cymysg Cyflawn (TMR) gyda wagen gymysgu yn arfer cyffredin erbyn hyn yn y rhan fwyaf o fuchesi llaeth mwy, os byddant yn cael eu rhoi dan do trwy'r flwyddyn neu am y gaeaf yn unig. Yn aml mae dognau cymhleth gyda nifer o gynhwysion yn cael eu hychwanegu at sgerbwd o silwair glaswellt, cnwd cyfan neu india corn. Er ei gymysgu yn drwyadl, bydd y buchod yn dal i dreulio llawer o'u hamser yn ceisio chwilio am y gyfran mewn pelenni neu startslyd o'r gymysgedd gan achosi amrywiaeth yn y dogn ar ôl iddo gael ei borthi. Gwaethygir y broblem ymhellach gan y silweiriau sydd â mwy o gynnwys sych sy'n cael eu gwneud ar ffermydd yn aml gan roi cyfle i wahanu mwy gan greu effaith 'nyth aderyn' ar hyd y barier porthi.

Bydd y prosiect yn Llysfasi, un o Safleoedd Arloesedd Cyswllt Ffermio, yn ymchwilio i effaith TMR wedi ei gywasgu (sydd â threfn lwytho wagen benodol) ac ychwanegu pwysau penodol o hylif gyda pH niwtral, fel dŵr neu faidd i glymu'r elfennau gyda'r sgerbwd o silwair yn yr amseroedd cymysgu a nodwyd. Mae'n bwysig dilyn y protocolau paratoi yn ofalus gan y gall mwydo anghywir ar borthiant effeithio ar yr epleu ac achosi i'r elfen silwair o'r TMR ffurfio lympiu.

Ers cyflwyno porthi TMR wedi ei gywasgu yn 2014, mae bron i 50% o fuchesi Denmarc wedi naill ai mabwysiadu'r dull yn llawn neu fabwysiadu rhai o'i egwyddorion allweddol, gan arwain at gynnydd mewn cynnyrch llaeth o 1,500-2,000kg y fuch y flwyddyn. Gwelsant fanteision o ran iechyd hefyd fel llai o asidosis oherwydd y lleihad yn y dosbarthu bwyd ac mae cynyddu amser gorwedd wedi arwain at rywfaent o ostyngiad yn y problemau iechyd traed.

Bydd y fuches yn Llysfasi yn cael ei rhannu a'i rheoli mewn dau grŵp cyfartal o fuchod yn unol â'r contract llaeth A2, lle mae ymrwymiad i'r llaeth o'r ddwy fuches gael ei storio ar wahân. Bydd un grŵp yn cael y TMR presennol a'r llall yn cael TMR wedi ei gywasgu am gyfnod o 6 wythnos yn dechrau yn gynnar yn Ionawr. Bydd y prosiect yn edrych ar wahaniaethau o ran ymddygiad a chynnyrch rhwng y ddau grŵp o fuchod, ynghyd â monitro cnoi cil a phrofi starts mewn ysgarthion i fonitro iechyd y rwmen. Bydd cyfraniad y myfyrwyr yn allweddol i'r prosiect gan y byddant yn gyfrifol am fonitro gwahaniaethau yn ymddygiad y buchod, cyfraddau cnoi cil a natur y tail.

Bydd Cyswllt Ffermio yn trefnu digwyddiad agored lle bydd Will Jones o KITE Consulting yn cyflwyno canfyddiadau'r prosiect. Manylion y digwyddiad yw:

21 Chwefror 2018

10:45 – 14:00

Am ragor o wybodaeth am TMR wedi ei Gywasgu neu am y digwyddiad cysylltwch â Rhys Davies: rhys.davies@menterabusnes.co.uk - **07985 379880**

Beth yw Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) Cymru a sut y gall helpu eich busnes?

Gyda'r pwyslais cynyddol ar feithrin sector amaeth effeithlon a blaengar ar ôl Brexit, mae Partneriaeth Arloesi Ewrop yng Nghymru (EIP Wales) yn cynnig hyd at £40,000 i grwpiau o ffermwyr a choedwigwyr i ymdrin â phroblemau ar eu ffermydd trwy dreialu syniadau newydd a thechnoleg gynaliadwy. Mae 10 prosiect newydd wedi derbyn arian trwy EIP Wales hyd yn hyn, sy'n datblygu'r dechnoleg, y cynhyrchion a'r ymchwil mwyaf diweddar.

Rheoli clwy tatws gan ddefnyddio elfennau o blanhigion cynhenid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd

Gall clwy tatws effeithio ar elw'r fferm gan y gall yr afiechyd arwain at weld y cnwd cyfan yn methu. Dengys amcangyfrifon diweddar y gall rheoli'r afiechyd cyffredin gostio cymaint â **£70m** i'r diwydiant ar draws y Deyrnas Unedig ar flwyddyn ddrwg.

Mae'r prosiect hwn yn helpu i ddatblygu bio-blaiddiad naturiol trwy ddefnyddio cyfansoddyn cemegol (saponin) a geir mewn eiddew cyffredin.

"Gall y treial hwn arwain at gyfle newydd sbon yn y farchnad, i dyfu eiddew yn fasnachol, a defnyddio'r saponin naturiol sydd ynddo i helpu tyfwyr organig i leihau effaith clwy'r tatws."

Bydd y bio-blaiddiad a gynhyrchir yn cynnig dewis gwahanol effeithiol, naturiol ac isel ei gost o bosibl, i drin clwy'r tatws. *"Bydd hyn yn lleihau'r cnydau a wastreffir trwy ddifetha cnydau gan glwy'r tatws ac o ganlyniad uniongyrchol yn caniatáu cynnydd yng ngwerthiant tatws, gwell trosiant a gwell proffidioldeb."*

Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan gynrychiolwyr o'r Sarvari Research Trust ac Emerald Crop Science a Naturiol Ltd ac mae'r plotiau treialu ar ddwy fferm, Ty'n yr Helyg ger Llanrhystud a Henfaes ym Mhrifysgol Bangor.



Plotiau treialu tatws ar Fferm Henfaes, Prifysgol Bangor

Asesu potensial profion genomig i heffrod llaeth i gynyddu'r gwelliant genynnol a'r elw ariannol



Trwy EIP Cymru, mae grŵp o ffermwyr o Ogledd Cymru yn anelu at wneud y mwyaf o elw ffermydd trwy gyflymu cynnydd eu buchesi llaeth wrth fridio.

35% yw dibynadwyedd etifeddu nodweddion o'r mynegai pedigree traddodiadol. Trwy ddefnyddio profion genomig i fesur DNA ar gyfer cynhyrchu, math, ffrwythlondeb a nodweddion iechyd gall hyn gynyddu'r dibynadwyedd i 70%.

"Bydd symud y datblygiad modern hwn i raddfa fferm yn werthfawr iawn i'r diwydiant trwy gyflymu datblygiad y fuches, rhoi hwb i allu'r fferm i gystadlu a'i chynaliadwyedd."

Bydd y prosiect yn ariannu profion genomig ar 410 o heffrod Holstein-Friesian yn bennaf i asesu eu potensial genynnol. Mae'r wyth fferm wedi rhestru'r nodweddion y maent yn anelu i'w gwella yn eu buchesi a bydd y cynnydd tuag atynt yn cael ei asesu dros eu cyfnod llaetha cyntaf.

Nod y prosiect yw:

- Cynhyrchu coeden benderfyniadau ar gyfer defnyddio genomeg
- Pennu'r berthynas rhwng y potensial trosglwyddo genomig (PTA) a'r gwir berfformiad
- Cael gwell dealltwriaeth o broffil genynnol y fuches, y cyfeiriad y mae'n teithio iddo ac effaith penderfyniadau bridio ar bob fferm sy'n cymryd rhan
- Chynhyrchu dadansoddiad mantais/cost profi genomig ar gyfer sefyllfa pob fferm

"Trwy fuddsoddiad bach mewn profi genomig, gall cynlluniau bridio gael eu hailstrwythuro i gael y cynnyrch gorau o'r adnoddau mwyaf gwerthfawr ar y fferm laeth, y fuches."

Y dasg gyntaf i'r ffermwyr fydd dewis yr heffrod i'w cynnwys yn y prawf. Yn gynnar yn 2018, bydd samplau DNA yn cael eu cymryd o'r heffrod cyn eu hanfon i gael proffil genynnol mewn pryd at y tro cyntaf y byddant yn bridio yn 13-15 mis oed.

Dysgu rhagor am EIP Cymru

Rydym yn annog pobl i ddod at ei gilydd a thrafod syniadau, boed yn newydd neu draddodiadol a allai wella effeithlonrwydd yn y diwydiant yn ehangach. Os credwch y gallai eich syniad fod yn gymwys i dderbyn cyllid trwy EIP Cymru, cysylltwch i gael cyngor.

Am ragor o wybodaeth am EIP Cymru, ewch i wefan Cyswllt Ffermio:

businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/partneriaeth-arloesi-ewrop-eip-yng-nghymru

Gwerthuso ansawdd mewn dwysfwyd i ddefaid

Bydd gwneud penderfyniadau doeth am faethiad y famog yn ystod y cyfnod ŵyna yn hwyluso ŵyna llai trafferthus i'r bugail. Dim ond am rai wythnosau mewn blwyddyn y mae mamogiaid yn cael dwysfwyd, felly mae'n werth rhoi amser ac ymdrech i sicrhau bod unrhyw ddwysfwyd a roddir yn addas i'r diben.

Nodir cynhwysion y dwysfwyd ar y tocyn ac fe'u rhestrir yn eu trefn, ond mae cynhyrchwyr dwysfwyd fel arfer yn barod i ddangos % y cynhwysion os gofynnir iddynt.

Mae'r cwmnïau dwysfwyd yn gwneud defnydd cost effeithiol o sgil-gynnyrch y diwydiant prosesu bwyd wrth lunio dwysfwyd, ond mae'n bwysig cofio bod yr egni hawdd ei ddefnyddio wedi ei dynnu o gynnyrch o'r fath, fel porthiant gwenith. Mae'n bwysig, felly, i chi chwilio am y grawn cyflawn sy'n cael ei gynnwys, fel gwenith, barlys neu india corn ar frig y rhestr cynhwysion ac yn y dogn ar 20% i 30% gyda'i gilydd i warantu bod lefelau'r egni sydd ar gael yn rhwydd yn dda yn y dwysfwyd.

Nid yw Egni Wedi ei Fetaboleiddio yn rhan o'r datganiad statudol ar y tocyn porthiant, ac mae'n cael ei gyfrifo o'r ME i'r cynhwysion unigol a'u canrannau yn y dwysfwyd. Dylai'r ME hwn wedi ei gyfrifo fod ar gael ar y fformiwleiddiad a welir gan gynhyrchwr y dwysfwyd.

Mae ansawdd y protein yn bwysicach na faint ohono sydd yno ac mae'n debyg mai soia yw'r cynhwysyn pwysicaf i chwilio amdano mewn dwysfwyd da i ddefaid. Mae'n haws i'r protein mewn soia gael ei ddiraddio yn y rwmen, gan

wella effeithlonrwydd treulio, ac mae hefyd yn cynnwys asidau amino cyfyngol fel methionin a chystin sy'n helpu i hybu cynhyrchu llaeth a cholostrowm o safon uchel. Ac yntau yn £300+ y dunnell, mae soia yn gynhwysyn drud, ac mae angen iddo fod yn y dwysfwyd ar gyfradd o fwy na 5% i fod yn fuddiol. Er ei bod yn ymddangos bod y dwysfwyd yn ddrud am bob tunnell, gallant gael eu porthi ar raddfa is pan fydd ansawdd y silwair yn dda, ac felly gall gynnig gwell gwerth am arian.

Mae Sopralin a SoyPass yn soia sydd wedi ei drin i'w ddiogelu rhag cael ei dorri i lawr yn y rwmen ac annog treulio mwy effeithlon yn is i lawr yn y perfedd.

Mae calsiwm, ffosfforws a magnesiwm, ac elfennau hybrin a fitaminau yn cael eu cynnwys bob amser mewn dwysfwyd i famogiaid sy'n ŵyna, ac ar yr amod bod y cyfraddau porthi yn rhesymol ni ddylid bod angen rhoi ategion eraill.

PWYNTIAU I'W COFIO:

- 1 Mae bob amser yn well porthi dwysfwyd â mwy o egni ar gyfradd borthi is fel bod y famog yn gallu bwyta cymaint o borthiant â phosibl ac felly gynyddu cyfanswm yr egni a gymerir
- 2 Canolbwyntio ar gost gyffredinol porthi yn ystod y cyfnod ŵyna yn hytrach na phris am bob tunnell y dwysfwyd
- 3 Gwerthuso gwahanol ddwysfwyd ar sail y cynhwysion sydd ynddynt i asesu gwerth am arian

Samplau ectoparasitiaid defaid

Bydd modd archwilio samplau ar gyfer ectoparasitiaid mewn defaid yn rhad ac am ddim yng Nghymru rhwng **15 Rhagfyr a 31 Mawrth 2018**.

Bydd y cynllun, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn cynorthwyo i wneud diagnosis cywir, sy'n hanfodol ar gyfer dewis triniaeth addas a rheoli ectoparasitiaid mewn defaid yn llwyddiannus. Mae gwell rheolaeth o glafr defaid yn flaenoriaeth i Grŵp Fframwaith Cymru ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid: <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/wales-animal-health-welfare-framework/implementation-plan/?skip=1&lang=cy>

Bydd y profion yn cael eu cynnal yn yr adran barasitoleg arbenigol newydd yng Nghanolfan Ymchwiliad Milfeddygol APHA, sydd hefyd yn ganolfan arbenigol ar gyfer goruchwyllo clefydau mewn da byw sy'n cael eu rheoli'n eang.

Derbynnir samplau yn y modd arferol gan y milfeddyg a dylid eu hanfon trwy'r post at Ganolfan Ymchwiliad Milfeddygol Caerfyrddin. Mae'n rhaid cynnwys hanes clinigol llawn er mwyn bod yn gymwys i dderbyn profion am ddim.

Gellir cyflwyno samplau ar ffurflen gyflwyno gyffredinol ar gael ar y Porth Milfeddygon - <http://ahvla.defra.gov.uk/vet-gateway/surveillance/forms.htm> neu ADTS - <https://www.gov.uk/animal-disease-testing>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chanolfan Ymchwiliad Milfeddygol Caerfyrddin

Canolfan Ymchwiliad Milfeddygol Caerfyrddin
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

Ffôn: 01267235244

E-bost: carmarthen@apha.gsi.gov.uk

Gwefan: www.gov.uk/apha

Trydar: @APHAgovuk

Facebook: [aphagov](https://www.facebook.com/aphagov)

Cyfeiriad: APHA Veterinary Investigation Centre,
Jobs Well Road,
Johnstown,
Carmarthen,
SA31 3EZ



Mwy nag un ffordd i borthi mamog #7maeth

Silwair a dwysfwyd yw sail llawer o systemau porthi mamogiaid yn y cyfnod cyn ŵyna. I lawer o ffermydd mae hon yn system brofedig. Ond, ai dyma'r system orau a mwyaf cost effeithiol mewn gwirionedd? Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf mae Cyswllt Ffermio wedi gweithio gyda rhwydwaith o safleoedd arddangos trwy Gymru ac mae hyn wedi amlygu nifer o ffyrdd gwahanol o borthi'r famog yn hwyr yn ei beichiogrwydd.

Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Cadw'r mamogiaid dan do yn hwyr yn y gaeaf a'u troi allan i ŵyna ar laswellt a gadwyd
2. Pori swêj hyd 3-4 wythnos cyn eu troi i mewn i ŵyna
3. Porthi Dogn Cymysg Cyflawn (TMR) gyda soia wedi ei drin (Sopralin)
4. System silwair porthi eu hunain
5. Porthi ychydig o ddwysfwyd uchel mewn protein gyda silwair
6. Pori cylchdro trwy gydol y gaeaf
7. Ail-hadu gyda gwndwn llawn protein i leihau lefelau porthi dwysfwyd organig

Rhaid i'r penderfyniad i addasu neu newid y system bresennol ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys:

1. Ymarferoldeb
2. Risg tywydd drwg ar amseroedd allweddol
3. Y math o dir
4. Amseriad tyfiant glaswellt y gwanwyn
5. Mynediad at adeiladau
6. Costau peiriannau
7. Llafur



Wrth gwrs mae'n bwysig peidio ag anghofio am gostau! Mae'n bwysig edrych ar oblygiadau economaidd unrhyw system yng ngoleuni effaith y buddsoddiad hwnnw mewn porthiant ar gynnyrch cyffredinol y ddiadell a thrwy hynny ar incwm.

Mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth bennu gwir gost system borthi ategol ac mae'r rhain yn cynnwys:

1. Cost y porthiant a gyflenwyd am bob kg o gynnwys sych (DM) a roddir
2. Lefelau cyffredinol o egni (Egni wedi ei fetaboleiddio) a phrotein (Protein crai) a gyflenwyd yn y diet
3. Cost am bob uned o egni (ME) a Phrotein (CP) a gyflenwyd
4. Effaith ar iechyd y rwmen a thrwy hynny ar iechyd yr anifail
5. Lefelau'r maetholion a gyflenwyd ar adegau amrywiol yn y cyfnod cyn ŵyna i dyfu'r oen ac i adael i'r famog gynhyrchu digon o golostrwm
6. Buddsoddiad yn y seilwaith (*gorbenion*)
7. Llafur – yn ddyddiol a'r gofyn cyffredinol i'r system a ddefnyddir

Mae profi, cofnodi a meincnodi sylfaenol hefyd yn hanfodol i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer y ddiadell. Gall prawf metabolig ar famogiaid tua 3 wythnos cyn ŵyna sicrhau bod y mamogiaid yn cael digon o egni a phrotein yn y diet. Gall cofnodi colledion o ran ŵyn helpu i ddynodi unrhyw broblemau gyda'r systemau porthi a gall cymharu perfformiad ffisegol ac ariannol y ddiadell helpu i ddynodi gwelliannau i'w cynnal mewn unrhyw system.

Am ragor o wybodaeth edrychwch ar ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a fideos #7maeth neu ewch i'n gwefan www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Fferm Lower Eyton:

Adolygiad Prosiect Rheoli Maetholion

Mae prosiect Cyswllt Ffermio sy'n canolbwyntio ar well defnydd o wrtaith wedi ei dyfu gartref yn dangos sut y gall rheoli chwalu tail a phrofi statws maetholion pridd wella cynhyrchiant a phroffidioldeb ar briddoedd Cymru.

Roedd y prosiect, ar fferm Lower Eyton ger Wrecsam, yn canolbwyntio ar y ffordd y mae ffermwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r gwrtaith a gynhyrchwyd gartref ac sydd ar gael. Maent yn symud oddi wrth brynu gwrtaith, i brotocol prynu ar sail statws y pridd a gofynion y cnwd i sicrhau bod y busnes yn cael yr enillion mwyaf posibl am y buddsoddiad a wnaed.

BETH A WNAED

1. Casglwyd samplau pridd dros y fferm gyfan (200ha) a ddefnyddiwyd i bennu mynegai'r pridd, ei ansawdd a'i strwythur.
2. Rhoddwyd profion i'r tail ieir a'r tail biff i bennu eu gwerth maethol.
3. Lluniwyd Cynllun Rheoli Maetholion gan ystyried yr uchod a lluniwyd argymhellion o ran y dulliau chwalu gwrtaith.

CANFYDDIADAU'R PROSIECT

O'r profion ar y pridd daeth yn amlwg bod amrywiaeth o ran ffrwythlondeb y pridd ar dir y fferm. Dangosodd y samplau bod angen calch ar 19 o'r 35 o gaeau a aseswyd oherwydd bod lefel y pH yn isel. Mae gwella pH priddoedd yn cynyddu ffrwythlondeb y pridd gyda mwy o gynnwys organig a maetholion pridd ar gael i'r cnwd eu defnyddio.

Roedd perygl o lygredd tryledol oherwydd y mynegai maetholion uchel yn y priddoedd. Roedd Ffosffad yn arbennig o uchel gyda mynegai o 4 mewn dau gae ar y fferm. Er mwyn gostwng y mynegai P dylai'r fferm osgoi chwalu Ffosffad ar y caeau yma.

Mae'r Canllaw Rheoli Maetholion (RB209) yn rhoi canllawiau ar gyfer gofynion maethol cynydau a chynnwys maethol deunyddiau organig.

<https://ahdb.org.uk/projects/RB209.aspx>

Roedd risg o golli maetholion o'r tail oherwydd y modd yr oedd yn cael ei storio. Cynhyrchir 60 tonn o dail ieir ac mae ar gael i'w ddefnyddio bob 14 mis, amcangyfrifir bod y tail yn werth £1,019 pan gaiff ei gymharu â phrisiau gwrtaith.

Trwy dargedu'r tail a'i gydbwyso gyda gwrtaith ychwanegol i fodloni gofynion y cnwd gellir sicrhau bod gwrtaith organig gwerthfawr yn cael ei ddefnyddio orau. Amcangyfrifir bod y tail buarth a gynhyrchir gan y 300 o wartheg sydd dan do am 5 mis yn werth £4,580.

Bydd cydbwyso a gwerthfawrogi'r ased hwn yn lleihau'r angen i chwalu gwrtaith anorganig a brynwyd i mewn.

Bydd chwalu maetholion, fel nitrogen sy'n ofynnol yn unigol yn hytrach nag mewn gwrtaith cyfansawdd yn lleihau costau i'r busnes oherwydd ei fod yn llai costus na gwrtaith cyfansawdd.

ARGYMHELLION

Dylid dadansoddi'r pridd am pH, Nitrogen (N), Ffosffad (P), Potasiwm (K) and Magnesiwm (Mg) bob 3 i 4 mlynedd fel rhan o reolaeth y busnes. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd llawer iawn o dail organig wedi ei gynhyrchu gartref a'i gludo i mewn yn cael ei ddefnyddio ar y fferm. Y gwerthoedd targed y dylid eu cynnal ar gyfer glaswelltir yw pH 6.0 a Mynegai 2 i P y pridd, a 2- i K.

Y cyngor yw defnyddio dull wedi ei dargedu o gae i gae i sicrhau bod y maetholion yn cyfateb i anghenion y cnwd. Bydd cyfateb y mewnbwn i ofynion y cnwd yn arbed arian i'r busnes yn ogystal ag amddiffyn yr amgylchedd. Targedwch

chwalu tail organig yn y gwanwyn pan fydd hynny'n bosibl i sicrhau bod digon o nitrogen ar gael i'r cnwd dyfu.

Pan fydd angen chwalu gwrtaith wrea, cynghorir chi i wneud hynny yn y gwanwyn, pan fydd y tymheredd yn isel ac ychydig o anweddu sy'n digwydd. Mae ei ddefnyddio tu allan i'r cyfnod hwn yn arwain at fwy o risg o ollwng i'r ecosystem ehangach a chost heb enillion i'r busnes.

Cadw cofnod parhaus o'r defnydd o dail, ynghyd ag unrhyw wrtaith anorganig. Bydd ail gyfeirio tail organig at gaeau o'r mynegai is yn helpu i gadw cydbwysedd maetholion pridd ar y fferm.

COFIWCH BOB AMSER

GOFALWCH EICH BOD BOB AMSER YN	PEIDIWCH BYTH Â
Gwneud yn siŵr nad oes perygl y bydd y gwrtaith yn llifo i ddŵr.	Chwalu pan fydd yn debygol y bydd yn llifo i ddyfrffordd.
Paratoi a dilyn cynllun rheoli tail, a chynllun rheoli maetholion.	Gadael i elifant silwair, slyri, tail neu ddŵr budr i fynd i'r ddyfrffordd.
Gwirio dyfrffyrdd yn aml, yn ystod ac ar ôl chwalu.	Chwalu deunyddiau organig hylifol pan fydd glaw trwm ar y ffordd o fewn 48 awr. Gall dŵr glaw sy'n rhedeg oddi ar gaeau sydd wedi cael slyri yn ddiweddar achosi llygredd.
Gadael o leiaf dair wythnos rhwng chwalu i osgoi selio'r arwyneb ac i roi amser i'r pridd amsugno'r maetholion.	Chwalu mwy na 50m ³ (50t) yr hectar ar y tro.
Sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer gwasgaru tail da byw a gynhyrchir ar y faliad. Ni ddylid chwalu mwy na 250 kg o nitrogen fesul hectar. Byddwch yn ymwybodol y gallai gofynion gwahanol fod yn berthnasol mewn Parthau Perygl Nitradau, ar ddaliadau organig ardystiedig ac ar gyfer y rhai mewn cytundebau rheoli tir eraill.	Chwalu ar dir sydd wedi gorlifo neu yn debygol o gael ei orlifo.

Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio - 08456 000813



Arweiniodd meincnodi at welliannau sylweddol mewn allbwn a phroffidioldeb i fferm arddangos Tynyberth

Mae Tynyberth yn cadw 550 o famogiaid magu ar fferm organig yn Abaty Cwm Hir, ger Llandrindod. Caiff ei ffermio gan Jack Lydiate a'i rieni John a Lynne, a defnyddiwyd canlyniadau meincnodi i osod cyfeiriad clir i'r busnes a dynodi unrhyw newidiadau oedd yn ofynnol. Mae'r fferm ei hun yn 300 erw o dir clai a phridd llwyd ar tua 1,000 troedfedd. Mae bloc arall o 200 erw tua 4 milltir oddi yno ac er ei fod yn draenio'n dda mae'n codi i bron 1,700 troedfedd. Gwerthir yr ŵyn gwryw yn stôr yn uniongyrchol o'r fferm a megir yr holl stoc cyfnewid gartref.

Wrth ddod yn fferm arddangos yn gynnar yn 2016, dangosodd adolygiad o'r busnes ar unwaith bod lle i wella. Un o'r pethau cyntaf yr oedd Jack am ymdrin ag o oedd cynhyrchiant y ddiadell. 100% oedd canran sganio'r ddiadell o famogiaid Cymreig wedi eu gwella ac roedd problem fawr gyda chloffni.

CLOFFNI

Gan weithio gyda'i filfeddyg, Liz Jones, o Filfeddygfa Ffordd Ddole gweithredwyd cynllun lleihau cloffni pum pwynt yr FAI. Wrth gynghori ar weithredu'r cynllun, archwiliodd Liz rai o'r mamogiaid cloff a gweithredwyd y triniaethau cywir ynghyd â chynllun rheoli tymor hir. Yn benodol, brechwyd y ddiadell i gyd rhag clwy'r traed a mabwysiadwyd polisi bod unrhyw famogiaid na fyddai'n ymateb ar ôl dwy driniaeth yn cael eu gwaredu.

CYNLLUN 5 PWYNT: Lleihau cloffni	CANLYNIAD
1. Brechu 2. Trin yn brydlon gyda gwrthfotig addas 3. Osgoi cynyddu heintiad 4. Gwaredu troseddwy'r cyson 5. Boddlogelwch da	10% ↓ 2% ers gweithredu'r cynllun pum pwynt yn 2016

Cynyddwyd y ganran sganio trwy wella sgôr cyflwr corff y mamogiaid cyn mynd at yr hwrdd yn ogystal â mynd i'r afael â rheoli llyngyr yr iau. Rhoddir sgôr cyflwr corff i'r holl famogiaid yn awr cyn mynd at yr hwrdd, gyda'r nod o gyflawni'r sgôr cyflwr corff delfrydol o 2.5 - 3. Gwahanwyd y mamogiaid oedd dan y sgôr gofynnol o'r prif grŵp i bori'r porfeydd gorau. Gan weithio eto gyda Liz Jones, casglwyd samplau ysgarthol oddi ar y mamogiaid dros gyfnod yr hydref a threfnwyd strategaeth yn ei lle i sicrhau bod y cynnyrch sy'n cael ei ddefnyddio ar yr adeg honno o'r flwyddyn yn hollol effeithiol. Yn y flwyddyn gyntaf ar ôl dod yn fferm arddangos ac yn dilyn cyngor gan Liz, profwyd y mamogiaid am ddiffyg elfennau hybrin. Dangosodd y canlyniadau bod y ddiadell yn brin iawn o seleniwm felly rhoddwyd bolws seleniwm i'r holl famogiaid cyn mynd at yr hwrdd.

% SGANIO

GWELLA % SGANIO	CANLYNIAD
- Rhoi sgôr cyflwr corff cyn mynd at yr hwrdd - Gwell rheolaeth ar llyngyr yr iau - Ychwanegu seleniwm i'r mamogiaid magu	Cynyddu o 100% yn 2016 i ↑ 123% yn 2017

“Fe wnaethom werthu 123 yn fwy o ŵyn yn 2017 nag yn y flwyddyn flaenorol felly mae hynny'n incwm nad oedd gennym yn y gorffennol”

Mae'r newidiadau eraill o ganlyniad i weithio gyda Cyswllt Ffermio yn cynnwys:

- Profi silwair
- Dynodi'r math mwyaf addas o ffacbys i'r rhaglen ail hadu
- Samplu pridd a chynllunio rheoli maetholion
- Symud yr ŵyna o ganol Mawrth i ddechrau Ebrill
- Rheoli cynefin i leihau cyswllt â llyngyr yr iau

Mae Jack yn awyddus i adeiladu ar y gwelliannau a wnaed yn barod a thrwy barhau i feincnodi mae wedi gosod nifer o dargedau ar gyfer y fenter ddefaid gan gynnwys y canlynol:

	TARGED	NEWID
Nifer o famogiaid at yr hwrdd	600	↑ Cynyddu 50
% Sganio	>130%	↑ Cynyddu 10%
% Magu	>120%	↑ Cynyddu 15%
Cyfartaledd oedran yr ŵyn a werthwyd (yn stôr)	5 mis	↓ Lleihau 6 wythnos

Gwerthir yr ŵyn yn stôr i fferm organig sy'n eu pesgi. Cyflwynwyd hyrddod Romney croes Texel hefyd gyda hanner y ddiadell yn mynd at hwrdd o'r brid hwn a'r hanner arall at hwrdd Cymreig. Mae'r fferm yn gobeithio cael budd o epilgarwch y brid hwn a gwell prisiau am ŵyn stôr a bydd hyn yn sail i'r prosiect Cyswllt Ffermio nesaf dros dymor 2018. Cadwyd ŵyn benyw croesfrid hefyd am y tro cyntaf ac eto bydd y rhain yn cael eu monitro am gyfnod o ddwy flynedd i ddeall a allant gynyddu allbwn y ddiadell ond hefyd a allant ffynnu ar Tynyberth.

Y DIWEDDARAF AM SAFLE ARLOESED

Y ddau brif fesur sy'n sail i gynhyrchu ŵyn yn broffidiol ar lawer o ffermydd defaid yr ucheldir yw perfformiad yr anifeiliaid a'r defnydd o borthiant ac nid yw hyn yn wahanol ar safle Arloesedd Cyswllt Ffermio ger Aberystwyth. Er bod Mynydd Gorddu yn cael ei ffermio gan y Cwmni Bridio Defaid Innovis Ltd, mae'r fenter yn cael ei rheoli yn fasnachol. Mae'r mamogiaid yn ŵyna allan ym mis Ebrill a rhoddir y porthiant gaeaf trwy gnydau porthiant heb unrhyw ddwysfwd. O ystyried hyn, arweiniodd deall pwysigrwydd **cyfraddau tyfu'r ŵyn a rheoli glaswellt** at ddatblygu dau brosiect Cyswllt Ffermio dros y 9 mis diwethaf.

Pam prosiect pwysu ŵyn?

- Mae ŵyn sy'n tyfu'n gyflymach yn fwy effeithlon wrth drosi porthiant yn gynydd mewn pwysau
- Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng gwerth yr oen a'i bwysau
- Gallu monitro iechyd a cynhyrchiant yr ŵyn

Pam prosiect mesur glaswellt?

- Mae cael taldra'r glaswellt yn iawn trwy gydol y tymor yn sicrhau'r swmp a'r ansawdd gorau o ran y glaswellt a dyfir
- Gellir cymharu'r galw gan y nifer o anifeiliaid ar y fferm â pherfformiad presennol y glaswellt a rhagweld unrhyw ormodedd neu brinder
- Gellir rheoli tyfiant y glaswellt yn well gan dargedu'r gwartaith a chwelir neu dynnu caeau allan o'r patrwm e.e. trwy silwair neu gnydau porthiant

Mae rhai o'r manteision cychwynnol i Fynydd Gorddu o bwysu a mesur glaswellt yn gyson yn cynnwys:

- ✓ Strategaeth drin llyngyr well ar y cyd â chyfrif wyau ysgarthol
- ✓ Gwell grwpio ar ŵyn ar ôl diddychu yn ôl eu pwysau a'r cynnydd pwysau
- ✓ Gwell dealltwriaeth o'r glaswellt yn yr hydref a thargedu chwalu gwartaith
- ✓ Datblygu cromlin twf glaswellt ar gyfer y tymor cyfan y gellir ei ddefnyddio i gynllunio'r ddiadell yn y tymor hwy



Ffermwyr defaid Môn yn arwain y frwydr yn erbyn Gwrthedd Gwrthficrobaidd

Ddeuddeng mis yn ôl, roedd y ffermwr arddangos Arwyn Jones, o Plas, Llandegfan, yn paratoi ar gyfer tymor ŵyna gwahanol. Fel rhan o'r prosiect Cyswllt Ffermio ar y fferm, roedd Arwyn yn benderfynol o leihau ei ddibyniaeth ar wrthfotig yn ystod ŵyna ar ei system ddwys dan do a chynnal ei ganran fagu ragorol.

Gan weithio hefo'r milfeddyg annibynnol Kate Hovers, roedd Arwyn yn canolbwyntio ar sicrhau iechyd y mamogiaid a'u maethiad cyn ŵyna a defnyddio protocol bioddiogelwch caeth yn ystod yr ŵyna. Mae hefyd yn cynghori ffermwyr i siarad â'u milfeddyg lleol i sicrhau bod ŵyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Trwy ddilyn cyngor milfeddygol cyfrifol a gweithredu cynllun iechyd anifeiliaid gweithredol, lleihaodd Arwyn ei ddefnydd o wrthfotig a chyflawni gwell perfformiad gan ei ddiadell.

Yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth ar y fferm, dangosodd ffermwyr lleol ddiddordeb yn y prosiect ac roeddent yn awyddus iawn i weithredu dull tebyg ar eu ffermydd eu hunain ac archwilio pa newidiadau rheoli eraill allai fod o fudd i'w systemau hwy. Gyda chefnogaeth eu swyddog datblygu lleol, Trystan Siôn, daeth chwe ffermwr cyfagos ac Arwyn at ei gilydd a gyda chyfarwyddyd gan Kate Hovers ac Emma Jones ADAS, maent wedi gwneud cais am arian trwy Bartneriaeth Arloesi Ewrop Cymru.

Bu eu cais yn llwyddiannus, sy'n golygu'r gwanwyn hwn y bydd y gwaith a wnaed yn y Plas yn cael ei ailadrodd a'i ehangu ar 6 fferm arall ar Ynys Môn.

Mae amcanion y prosiect fel a ganlyn:

- Hyrwyddo defnydd cyfrifol o wrthfotig i sicrhau parhad effeithiolrwydd cyffuriau a rheoli costau.
- Cynyddu hyder ffermwyr wrth ffurfio dognau a gweithredu arferion rheoli, gan leihau defnydd prophylactig o wrthfotig wrth ŵyna gan gynnal a gwella iechyd a lles.
- Gwella maethiad ac arferion rheoli er mwyn gwella egni, lleihau marwolaethau a lleihau'r buddsoddiad yn eu pesgi.
- Galluogi'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr i fabwysiadu dulliau gwahanol i ddefnyddio gwrthfotig, gan eu helpu i ddod yn fwy gwydn.



Dileu BVD yn cadw at y targed yng Nghymru gyda 15% o fuchesi wedi eu profi

Ymatebodd ffermwyr yn gadarnhaol i'r rhaglen ddileu BVD a arweinir gan y diwydiant yng Nghymru 'Gwaredu BVD' gyda thua 15% o'r holl fuchesi yng Nghymru wedi eu profi ers i'r prosiect gael ei lansio ym mis Medi.

Ar ôl sicrhau cyllid o Raglen Ddatblygu Gwledig 2014-2020, mae ymgais Cymru i ddileu BVD wedi arwain at brofi mwy na 2000 o fuchesi mewn llai na phedwar mis; profodd tua 29% o'r rhain yn bositif am wrthgyrff BVD, dywedodd milfeddyg technegol arweiniol y cynllun, Dr Neil Paton.

"Disgwylir i brofion TB blynyddol gyrraedd eu nifer uchaf yn ystod y misoedd nesaf, a gobeithir y byddwn yn gweld mwy o ffermwyr eto yn cymryd rhan trwy eu milfeddyg lleol," dywedodd Dr Paton.

Gweithredwyd rhaglenni dileu BVD yn llwyddiannus yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan ddangos bod dileu BVD yn bosiblwydd gwirioneddol yng Nghymru.

Mae effaith economaidd yr afiechyd o ganlyniad i farwolaethau oherwydd erthyliadau neu farwolaeth mwcosaidd mewn gwartheg hŷn. Mae'n arwain hefyd at waethgu perfformiad a chynhyrchiant pan fydd anifail sydd yn cael ei heintio yn barhaus (PI) yn aros yn y fuchesi heb ei ganfod.

Mae'r anifeiliaid sy'n cael eu heintio yn barhaus yn chwalu'r firws ac mae hyn yn atal system imiwnedd anifeiliaid, gan arwain at gyfraddau tyfu a ffrwythlondeb is.

Manteisiodd Bedwyr Jones, Gwastadanas, Fferm Ffocws Cyswllt Ffermio ger Beddgelert, ar y cynllun.

Yn ystod ei brawf TB blynyddol, profwyd 10 heffer yn ystod y prawf TB cychwynnol (TT1). Ar y cyfnod darllen (TT2) cadarnhawyd bod y profion gwaed yn negyddol.

Derbyniodd Bedwyr arweiniad gan ei filfeddyg, Stefan Totir, ar gynnal statws heb BVD ei fuchesi trwy gynllunio iechyd ymarferol a phrotocolau bioddiogelwch da.

"Roedd y broses gyfan yn gyflym, syml ac effeithiol," dywedodd Mr Jones. "Gallaf weld yn glir pa mor gostus y gallai BVD fod i'm buches, ac rwyf yn annog pawb i ymuno â'r cynllun."

Mae'r profion cychwynnol am wrthgyrff BVD yn cael eu hariannu yn llawn. Os bydd angen profion pellach mae £500 ar gael i

helpu i ddynodi anifeiliaid sy'n heintus o hyd.

Dylai ffermwyr gysylltu â'u milfeddyg am wybodaeth sut i gymryd rhan.



ACADEMI **AMAETH**
AGRI ACADEMY

2018

Ysbrydoli arweinwyr gwledig ac entrepreneuriaid y genhedlaeth nesaf

Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig
menter ar y cyd gyda Chymdeithas Amaethyddol

Rhaglen Busnes ac Arloesedd

Rhaglen yr Ifanc, menter ar y cyd gyda CFfl



Am fwy o wybodaeth ac i lawrlwytho ffurflen gais, ewch i wefan Cyswllt Ffermio:
www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



Richard Roderick

Ymchwilio i Gynhyrchu Gwartheg Magu yn Broffidiol, ar sail y defnydd mwyaf posibl o borthiant

NOD Y GYFNEWIDFA

Y nod dros y pum mlynedd nesaf yw gwneud y busnes yn fwy abl i wrthsefyll y newidiadau sydd o'n blaenau. Rydym yn anelu at ganolbwyntio ar bob elfen o'r busnes a'u gwneud yn broffidiol drostynt eu hunain. Bydd busnes cynaliadwy yn golygu cynhyrchu biff a chig oen, o borthiant yn bennaf, i sicrhau bod y costau cynhyrchu yn cael eu cadw cyn lleied â phosibl. Felly mae'r glaswelltau a dyfir a'r defnydd ohonynt yn yrrwyr allweddol i'r busnes.

Y pwyslais ar gyfer y 5 mlynedd nesaf fydd parhau i wella geneteg ein biff a chig oen gyda'r nod o fedru cynhyrchu buches/diadell sy'n cynhyrchu ei stoc cyfnewid ei hun. Yn ychwanegol rydym yn anelu at roi mwy o bwyslais ar y defnydd gorau o'r glaswellt a dyfir.

Dros y flwyddyn a mwy ddiwethaf rydym wedi bod yn casglu data am y fuches ac yn bwriadu cofnodi perfformiad ein holl anifeiliaid. Bydd hyn yn cynhyrchu gwerthoedd bridio tybiedig i'r fuches, gan ein galluogi i ddewis y nodweddion mwyaf buddiol yn yr heffrod cyfnewid at y dyfodol. Trwy deithio i'r Alban y nod oedd datblygu

dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y fenter biff. Wrth edrych ar amrywiaeth o'r buchesi sy'n cyflawni orau fe fyddem yn gallu pennu'r dangosyddion yma ar sail y ffermwyr mwyaf llwyddiannus yn y diwydiant a dod â'r wybodaeth yn ôl i'w gweithredu ar fferm Newton Farm.

Byddai'r ymweliadau cyfnewid yn cynnwys busnesau enghreifftiol yn yr Alban, Iwerddon a Gogledd Lloegr. Mae'r amodau o ran cynhyrchu biff yn debyg yn y tair gwlad hynny ac mae rhai ffermwyr yn arwain y ffordd o ran gorffen biff ar borthiant. Mae pennu'r dangosyddion perfformiad allweddol i'w defnyddio yn ôl ar fy fferm yn flaenoriaeth. Mae gan yr holl ffermydd a ddynodwyd fuchesi biff cymharol fawr ac maent yn seiliedig ar systemau porthiant yn bennaf.

CANLYNIADAU'R YMWELIAD CYFNEWID

Roedd y croeso a roddwyd a'r wybodaeth a rannwyd gan y ffermydd yr ymwelwyd â nhw yn rhyfeddol ac ni allaf ddiolch digon i bawb a gyfarfûm ar hyd y ffordd. Mae ymweld â fferm/cynhyrchwr arall yn fraint ac rwyf yn dysgu rhywbeth newydd neu ffordd newydd o wneud rhywbeth bob tro.

Mae rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio yn cynnig cyfle i unigolion naill ai: fynd ar ymweliad i ffermydd neu safleoedd coedwigaeth eraill yn yr Undeb Ewropeaidd, **NEU** drefnu i reolwr fferm neu goedwigaeth profiadol sydd wedi cael hyfforddiant addas ymweld â'u daliad. Mae'r ffenestr ymgeisio yn agor bob mis Mehefin.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813** neu ewch i **www.llyw.cymru/cyswlltffermio**



GLASWELLT

- ✓ Mae pori cylchdro yn arwain at gynnydd yn y cynnyrch o 27%
- ✓ Mae'r gymysgedd o laswelltau a dyfir, meillion yn arbennig, yn hanfodol
- ✓ Mae cynnal y gwerthoedd pH cywir yn hanfodol o ran tyfiant glaswellt, sy'n gofyn am samplor pridd yn gyson
- ✓ Mae taldra'r borfa a 'cherdded y tir' yn nodweddion hanfodol i ddefnyddio glaswellt yn dda
- ✓ Bydd rhoi pwysau ar borfa yn cynyddu'r mas o wreiddiau, gan wella strwythur y pridd a'r deunydd organig yn y pridd. Bydd hyn yn arwain at gadw mwy o ddŵr a llai yn rhedeg oddi ar yr arwyneb
- ✓ Mae sefydlu systemau dŵr a thrydanol yn hanfodol o ran llwyddiant pori cylchdro
- ✓ Yn y cyswllt hwn, mae'r gallu i roi gwifren o gwmpas y fferm yng Nghymru yn gymhleth gan fod gennym nifer fawr o wrychoedd a mwy o dyfiant

I ddarllen yr adroddiad yn llawn, ewch i **wefan Cyswllt Ffermio**.

GWARTHEG

- ✓ Gellir eu cadw allan ar borfa wedi ei neilltuo yn hapus iawn ac mae'r buchod yn fwy abl a'r costau llafur yn is
- ✓ Mae hyn yn ddibynnol ar y brîd, wrth gwrs. Rhaid i'r brîd a ddewisir fod yn addas i'r fferm
- ✓ Mae gwelliannau genynnol dros amser yn helpu gyda'r gwerthoedd bridio tybiedig hefyd – tarw potel yw'r ffordd gyflymaf/fwyaf diogel o wella genynnau
- ✓ Mae'r kilos a dyfir i bob hectar yn fesur allweddol
- ✓ Mae gwartheg yr Ucheldir yn borwyr cadwriaethol rhagorol ond mae angen eu croesi i fod yn hyfyw yn economaidd

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

- ✓ Buchod sy'n cael eu cadarnhau yn gyflo fel % o'r rhai a aeth at y tarw
- ✓ Lloeau byw fel % o'r rhai y cadarnhawyd eu bod yn gyflo
- ✓ % o'r buchod sy'n lloea yn y 6 wythnos gyntaf a'r ail chwe wythnos
- ✓ Pwysau'r lloeau wrth eu diddyfnu fel % o bwysau byw'r fuwch
- ✓ Dyddiau hyd eu Lladd
- ✓ Cynnydd pwysau'r dydd ar hyd eu hoes

Amserlen Digwyddiadau

DYDDIAD	DIGWYDDIAD	LLEOLIAD	CYSWLLT
25/01/18 19:30-21:30	Ffermio ar gyfer y dyfodol <i>Mae archebu lle yn hanfodol</i>	Neuadd Bentref Llandinam, Llandinam, SY17 5BY	Canolfan Wasanaeth 08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk
25/01/18 19:30-21:30	Rheolaeth Staff - Denu a chadw pobl da	The Grosvenor, Aberteifi, Ceredigion, SA46 1HY	Menna Williams 07399 600 146 menna.williams@menterabusnes.co.uk
25/01/18 19:30-21:30	Digwyddiadau PDP	Clwb Golff Machynys, Llanelli, Caerfyrddin, SA15 2DG	Gwion Parry 01248 660 373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
29/01/18 19:30-21:00	Digwyddiadau PDP	Eagles Hotel, Llanrwst, Conwy, LL26 0LG	Gwion Parry 01248 660 373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
30/01/18 19:30-21:30	Ffermio ar gyfer y dyfodol <i>Mae archebu lle yn hanfodol</i>	Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor; LL57 2TQ	Canolfan Wasanaeth 08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk
31/01/18 18:00-20:00	Opsiynau cynydu porthiant ar gyfer defaid a biff	St Mary's Golf Club, Pencoed, Bro Morgannwg, CF35 5EA	Catherine Nakielny 01970 631 406 catherine.nakielny@menterabusnes.co.uk
01/02/18 19:30-21:30	Ffermio ar gyfer y dyfodol <i>Mae archebu lle yn hanfodol</i>	Clwb Golff Y Bala, Y Bala, Gwynedd, LL23 7YD	Canolfan Wasanaeth 08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk
01/02/18 19:00-21:00	Brechu i gynyddu proffidoldeb eich uned dofednod	The Elan Hotel, Rhayader; Powys, LD6 5AF	Jodie Roberts 07896 996 841 jodie.roberts@menterabusnes.co.uk
01/02/18 19:30-21:00	Digwyddiadau PDP	Clwb Rygbi Aberteifi, Ceredigion, SA43 1PH	Gwion Parry 01248 660 373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
06/02/18 19:30-21:30	Digwyddiadau PDP	The Castle, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin, SA20 0AP	Gwion Parry 01248 660 373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
08/02/18 11:00-15:00	Arfer gorau mewn trin a storio planhigion a phlannu gwrychoedd	Llysfasi Coleg Cambria, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2LD	Geraint Jones 07398 178 698 geraint.jones@menterabusnes.co.uk
12/02/18 08:00-10:30	Dyfodol Porthiant yn yr ucheldiroedd	Clwb Peldroed Penrhyncoch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EH	Lisa Roberts 01970 631 406 lisa.roberts@menterabusnes.co.uk
13/02/18 11:00-13:00	Gwella Cynhyrchiant Pridd	Lower Eyton Farm, Wrexham, LL13 0SN	Jodie Roberts 07896 996 841 jodie.roberts@menterabusnes.co.uk
21/02/18 11:00-14:00	DWG Compact (Dogn wedi ei gymysgu) - ymagwedd gwahanol i gymysgu dogn laeth	Llysfasi Coleg Cambria, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2LB	Rhys Davies 07985 379 880 rhys.davies@menterabusnes.co.uk
21/02/18 19:30-21:30	Seminar Arallgyfeirio	Fforest Inn, Llanfihangel- Nant-Melan, Powys, LD8 2TN	Gwion Parry 01248 660 373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
22/02/18 19:30-21:30	Seminar Arallgyfeirio	The Hand Hotel, Llangollen, Denbighshire, LL20 8PL	Gwion Parry 01248 660 373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk